

Digimap for Schools

Mr Postmon

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Mr Postmon

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Mae'r gweithgaredd hwn yn ymwneud â chreu 'amlenni mapiau'	Unrhyw leoliad

Gwybodaeth	Lefelau closio/anodi
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Sgiliau map
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau. Defnyddio mapiau, cynlluniau a delweddau o wahanol fathau a graddau, a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 0.07a, 2.10a, 1.14a

Gweithgaredd

Bydd myfyrwyr yn archwilio lefelau closio ar fap, ac yn creu label ar gyfer amlen. Wrth wneud hyn, byddant yn archwilio eu hardal nhw a dod o hyd i'w cartref.

Datblygwyd y syniad ar gyfer y gweithgaredd hwn yn rhannol o gasgliad hyfryd o amlenni darluniadol a anfonwyd at gyhoeddwr llyfrau plant, Klaus Flugge. Ewch i *Google images* a chwiliwch am '*Klauss Flugge envelope*' i weld enghreifftiau.

Mae'r gweithgaredd hwn yn addas fel adnodd diweddar ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes yn gyfarwydd â'r meddalwedd, ac i'w ddefnyddio mewn ysgol gynradd. Gall fod yn ddefnyddiol cael copi papur o *The Basics*, sef canllaw defnyddwyr y gellir cyfeirio ato.

http://digimapforschools.edina.ac.uk/Resources/DFSUSERGUIDEFINISHED_edit.pdf

Cyflwyniad

Mae llawer o bobl yn cyfathrebu trwy anfon negeseuon e-bost, ond bydd y gweithgaredd hwn yn adennill gwerth post arferol. Bydd disgyblion yn creu amlen gyda'r llwybr at y derbynnydd wedi'i ychwanegu, ond wedi'i ddisgrifio yn hytrach na rhoi cyfeiriad.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio *ANNOTATION TOOL* (offeryn anodi) a *LABELLING TOOL* (offeryn labelu) i amlygu lleoliad y cyfeiriad lle mae angen dosbarthu'r llythyr, a chreu blwch sy'n cynnwys y disgrifiad. Bydd hwn yn cael ei argraffu a'i droi'n amlen gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd.

Y bwriad yw llunio map sy'n dangos man cychwyn y llythyr (yr ysgol) a'i gyrchfan.


Prif weithgaredd

1. Dechreuwch trwy ddod o hyd i'ch ysgol a'ch cartref

Rhowch god post (neu enw lle) i ddod o hyd i'r map sydd ei angen arnoch. Newidiwch lefel closio y map hyd nes bod eich ysgol a'ch cartref ar y map. Gwnewch i'r map lenwi eich sgrin, os yw o help.

2. Ychwanegu'r blwch cyfeiriad

Mae angen i chi ychwanegu petryal ar y map. I wneud hyn, agorwch '*Annotations Toolbar*' (Bar Offer Anodi) ac yn yr adran '*Draw and Create*' (arlunio a chreu), dewiswch y cylch. Nawr dewiswch '*Draw a rectangle*' (tynnu llun petryal). Rhowch y petryal mewn man fel y gellir gweld eich tŷ o hyd ar y map.



Cyn i chi dynnu llun y petryal, dewiswch liw yr amlinelliad a'r liw i'w lenwi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis tryloywder 0%.

Os byddwch eisiau newid golwg unrhyw beth, gallwch ddewis yr ysgrifbin amlygu melyn a chlicio ar yr eitem rydych eisiau ei newid. Os byddwch eisiau ei symud, cliciwch ar y saeth pedwar pen ac yna'r eitem rydych eisiau ei symud.

Yn yr offeryn *LABELLING* (labelu), ysgrifennwch ddisgrifiad o'ch tŷ sydd ddim yn cynnwys ei enw/enw'r stryd, ond sy'n rhoi disgrifiad digonol i rywun allu dod o hyd iddo.

3. Gosod testun.



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Gosodwch eich dewisiadau tesun, gan ddewis lliw, ffont a maint testun. Cliciwch ar y petryal i osod y testun. Rhewch eich testun yn y blwch naid a chlicio ar y blwch cadw.

Bydd angen i chi ychwanegu'r cyfeiriad un llinell ar y tro, gan fod cyfyngder ar faint y label o **30 nod ar y mwyaf**.


Gallai'r wybodaeth gynnwys:

- Pellter a chyfeiriad o dirnod.
- Disgrifiad o'r tŷ - beth sy'n gwneud iddo sefyll allan oddi wrth weddill y tai ar y stryd?
- Nodweddion penodol yn y stryd neu ardd.
- Gellid cyfrif o bwynt penodol, er enghraifft, y trydydd golau stryd, y goeden dalaf, yr ail gât las.

4. Amlygu'r ysgol a'r llwybr

Amlygwch leoliad yr ysgol a gosod label arno. Dewiswch liw ac arddull addas o'r dewisiadau amlinellu ac yna dewis 'Draw a Line' (tynnu llinell). Amlygwch y llwybr yn ôl i'ch tŷ, gan glicio i newid cyfeiriad. Pan fyddwch yn clicio ddwywaith ar y diwedd, bydd y llinell yn newid i'ch lliw a'ch arddull dewisol.

Dyma enghraifft a gynhyrchwyd:




5. Creu amlen

Argraffwch eich map maint A4. Gwnewch yn siŵr bod y 'cyfeiriad' yn ddigon mawr i'w ddarllen. Torrwch y map allan er mwyn iddo orchuddio'r rhan fwyaf o un o'r meintiau amlenni isod. Os oes gennych hen amlen, glynwch ef ar y tu blaen i wneud amlen newydd.

Gweler y ddelwedd MEINTIAU AMLENNI isod ar gyfer yr amlenni amrywiol y mae pobl yn eu defnyddio.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Mynd gam ymhellach

1. Os byddwch eisiau i'r map argraffu ar amlen, efallai y bydd rhaid i chi addasu eich map fel bod y cyfeiriad yn y man cywir.
2. Postiwch rhai o'r amlenni hyn i weld a fyddan nhw gyrraedd...

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

